# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Iau - 10.09.20 yn Y Ganolfan, Fairbourne (yn dilyn canllawiau diweddaraf Covid 19)

**Presennol:** Huw Davies (Cadeirydd), Ian Williams, Dylan Thomas, Geraint Edwards, Geraint Micah, David Griffiths, John Griffiths, Jenny Warne, Louise Hughes (Cynghorydd Sirol), Glenda Edwards (Clerc), un aelod o’r cyhoedd.

1. **Croeso’r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i’r cyfarfod, ag hefyd rhoddwyd croeso i Mr N Ward.

2. **Ymddiheuriadau:** Keith Carroll, Kevin Goodchild.

3. **Cadarnhau’r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o’r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 12.08.20 fel rhai cywir.
   **Cynnig –** Ian Williams **Eilio –** Jenny Warne **Arwyddwyd –** Huw Davies.

4. **Materion yn codi o’r Cofnodion Blaenorol (12.08.20):**
   - **Llwybr ger “Wendy’s” yn Llwyngwril:**
     **Ambell i ymateb wedi ei dderbyn ynglŷn â phenderfyniad y cyngor cymuned i’r mater yma.**

     Mynychodd Mr Nick Ward y cyfarfod i drafod penderfyniad aelodau’r cyngor cymuned ynghylch y llwybr hwn. Y penderfyniad ym Mis Awst oedd *“ni fydd y Cyngor Cymuned yn ystyried gwneud Cais am Orchymyn Addasu’r Map a'r Datganiad Diffiniol ar gyfer Gwynedd, oherwydd nid oes budd cymunedol ehangach."*

     Cafodd Mr Ward amser i rannu ei farn gyda'r aelodau a chyflwynodd ddau gwestiwn iddynt –

     **1.** Beth yw ystyr y term a ddefnyddir gan y Cadeirydd yng nghyfarfod mis Awst o “fudd cymuned ehangach” a “pham nad yw'r trethdalwyr ar ein pen ni o'r pentref yn cael eu hystyried yn rhan o 'gymuned ehangach' Llwyngwril ?”

     **2.** A yw'r aelodau wedi ystyried effaith y strategaeth Network Rail ar 'Wella Diogelwch Croesfannau' ar y ddau lwybr cyhoeddus arall i'r traeth, ac y gallai fod yn amhosibl yn y dyfodol i drigolion, ac ymwelwyr gael mynediad i'r traeth trwy'r croesfannau hyn - ac felly pwysigrwydd gweithredu nawr i sicrhau llwybr sy'n annibynnol o’r rhain, gan ddefnyddio'r llwybr o dan y rheilffordd ger 'Wendy's?

     Diolchodd y Cadeirydd i Mr Ward am ei gyfraniad a'i gwestiynau ac awgrymodd fod yr aelodau yn cael mwy o amser i ail-ystyried eu penderfyniad. Byddai'r mater yn cael ei drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

5. **Gohebiaeth:**

   a) **Llwybr/ Ramp i lan y môr ger y Crynwyr yn Llwyngwril -**
   Mae'r llwybr/ramp ar y traeth ger y Crynwyr wedi cael ei danseilio gan y stormydd diweddar ag angen sylw i’w wneud yn ddiogel eto. Cyngor Gwynedd wedi atgyweirio’r llwybr yma yn y gorffennol, gan ei fod yn llwybr hanfodol i bobl gael mynediad diogel i’r traeth
   **Penderfyniad** ➞ cysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn a oes bosib iddynt wneud archwiliad o’r llwybr/ramp yma.

   b) **Ceisiadau am gyfraniad ariannol wedi eu derbyn ers Mis Ebrill 2020:-**
   **1.** Marie Curie Gwynedd, **2.** Gofal Canser Tenovus Cymru, **3.** Teenage Cancer Trust Cymru, **4.** Tŷ Gobaith Conwy, **5.** Hosbis Dewi Sant - Ysbyty Eryri, Caernarfon
   **Penderfyniad** ➞ pawb yn gytûn i gyfrannu £25.00 yr un. **Cynnig:** Dylan Thomas **Eilio:** Geraint Edwards.

   c) **Defibrillator yn y maes parcio'r Ganolfan -** Cais wedi ei dderbyn i ail osod y Defibrillator yn y Ciosg BT, ger y cae chwarae, ag i’r Cyngor Cymuned dalu am wneud y gwaith yma (£684)
   **Penderfyniad** ➞ cysylltu â Chyngor Gwynedd / BT i ofyn beth oedd canlyniad yr ymgynghoriad a gafodd ei wneud ym Mis Mawrth 2020.

6. **Materion Cynllunio:**
   a) **NP5/69/405 – The Burf, Llwyngwril –** Adeiladu estyniad dormer a balcony
   **Penderfyniad** ➞ dim sylwadau/gwrthwynebiadau i'w cyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.

   b) **NP5/69/408 – 31-34 Godre'r Gaer, Llwyngwril –** Newidiadau allanol gan gynnwys cladin allanol
   **Penderfyniad** ➞ dim sylwadau/gwrthwynebiadau i'w cyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.

   c) **NP5/69/407 – Land at Brynllwyn, Rhoslefain –** Adeiladu Annedd Menter wledig
   **Penderfyniad** ➞ dim sylwadau/gwrthwynebiadau i'w cyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.

   d) **NP5/69/123B – Plas y Bryn, Llwyngwril –** Adeiladu sied amaethyddol
   **Penderfyniad** ➞ dim sylwadau/gwrthwynebiadau i'w cyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.

7. **Adroddiad Ariannol**: Adolygiad Ariannol wedi ei wneud.
   Derbyniwyd Adroddiad Mis Awst 2020 yn gywir.
   **Cynnig –** Ian Williams **Eilio –** Jenny Warne **Arwyddwyd –** Huw Davies.

   a) **Praesept wedi ei dderbyn** (26.08.20) am 6 mis - £4,900.00
   b) **Adolygu Polisi Cyfraniadau Ariannol 2020-21** ➞ dim newid i'r polisi
   Y Ganolfan £1,000.00, Ambiwlans Awyr £250.00, Mynwentydd Llangelynnin £500.00 – i'w talu Mis Chwefror.
   Ceisiadau eraill = £250.00 i gael eu rhannu rhyngthynt.
   c) **Y Ganolfan, Fairbourne –** siec £20.00 i dalu am ddefnydd y Ganolfan ar y 10.09.20.

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:** Dim.

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Derbyniwyd adroddiad Louise Hughes.

10. **Unrhyw Fater Arall:**
   a) **Coeden Nadolig 2019 – Rhoslefain:**
   Cyngor Cymuned heb dderbyn anfoneb gan Mr T Evans, Gwanas, am y goeden.
   **Penderfyniad** ➞ Siec i'w hanfon i Mr T Evans, Gwanas - £40.00.
   b) **Arwyddion i'r llwybrau a'r cae chwarae:**
   A oes gan Gyngor Gwynedd arwyddion i'w rhoi ar y llwybrau cyhoeddus ag yn y cae chwarae yn Llwyngwril i atgoffa pobl i ddilyn canllawiau diweddaraf Covid-19 ….. i gadw pellter diogel - 2m ?
   **Penderfyniad** ➞ cysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn am arwyddion.
   c) **Mynediad / llwybr i'r traeth – Sunbeach, Llwyngwril:**
   **Penderfyniad** ➞ cysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn beth yw'r sefyllfa ynglŷn â'r llwybr yma gan fod dim diweddariad wedi ei dderbyn ers mis Hydref 2019.
   d) **Ceg yr Afon ger Llwybr y Perthi, Llwyngwril**:
   Cwynion wedi eu derbyn fod y llwybr yma yn dal i fod yn beryglus a bod y sefyllfa yn gwaethygu.
   Adroddodd Huw Davies fod swyddogion Cyngor Gwynedd wedi gwneud arolwg a'r data wedi ei brosesu, cais i gael ei gyflwyno wedi i'r croestoriadau gael eu gwneud.
   e) **Broadband** - adroddodd Ian Williams ei fod wedi cymerid rhan mewn project i geisio cael gwell Broadband i'r ardal. Mae Llwyngwril ar y rhaglen uwchraddio, ond mae cyllid ychwanegol ar gael os yw cyflymder y band eang o dan 30 yn yr ardal. Mae tudalen Facebook wedi ei sefydlu os oes rhywun angen mwy o wybodaeth.

## Dyddiad y Cyfarfod Blynyddol:- Nos Fercher – 14.10.20 - am 7pm yn y Ganolfan, Llwyngwril

**Arwyddwyd**
**Cadeirydd ……………………………………………………………………………………… Dyddiad ……………………………**